# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Chwefror 2016

Amser: 09.31 - 14.28

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3354

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | William Graham AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jeff Cuthbert AC<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Paul McMahon, Network Rail<br>Colin Poole, Yr Adran Drafnidiaeth<br>Brian Etheridge, Yr Adran Drafnidiaeth<br>Aidan Grisewood, Transport Scotland<br>John Larkinson, Office of Rail and Road<br>Paul Plummer, Rail Delivery Group<br>Tim James, Network Rail |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Rachel Jones (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Andrew Minnis (Ymchwilydd) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Keith Davies AC, Mick Antoniw AC, Eluned Parrott AC a Gwenda Thomas AC.

## 2 Ymchwiliad i'r Blaenoriaethau ar gyfer Dyfodol Seilwaith y Rheilffyrdd yng Nghymru

### 2.1 Ymchwiliad i'r Blaenoriaethau ar gyfer Dyfodol Seilwaith y Rheilffyrdd yng Nghymru – Tystiolaeth gan Transport Scotland

2.1.1 Atebodd Aidan Grisewood gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

### 2.2 Ymchwiliad i'r Blaenoriaethau ar gyfer Dyfodol Seilwaith y Rheilffyrdd yng Nghymru – Tystiolaeth gan Network Rail

2.2.1 Atebodd Paul McMahon a Tim James gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.
2.2.2 Cynigiodd Paul McMahon a Tim James ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- Manylion am y dadansoddiad a gynhaliwyd gan dîm rheoli asedau Network Rail o'r ardaloedd yng Nghymru y mae llifogydd wedi effeithio arnynt droeon a sut y maent yn mesur y risg i'r rhwydwaith yn y dyfodol a'r gost ar gyfer gwella gallu'r rhwydwaith i wrthsefyll llifogydd o'r fath.
- Data Network Rail ar faterion ariannol a pherfformiad mewn perthynas â llwybr Cymru.

### 2.3 Ymchwiliad i'r Blaenoriaethau ar gyfer Dyfodol Seilwaith y Rheilffyrdd yng Nghymru – Cyrff rheoleiddio a chynllunio rheilffyrdd

2.3.1 Atebodd John Larkinson a Paul Plummer gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.3.2 Cynigiodd John Larkinson ddarparu adroddiad blynyddol y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd ar effeithlonrwydd / perfformiad ariannol Network Rail yn ôl llwybr.

### 2.4 Ymchwiliad i'r Blaenoriaethau ar gyfer Dyfodol Seilwaith y Rheilffyrdd yng Nghymru - Tystiolaeth gan Lywodraeth y DU

2.4.1 Atebodd Colin Poole a Brian Etheridge gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Canlyniad Arolwg y Rail Freight Group 2015

3.1.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a dechrau'r cyfarfod nesaf.

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a dechrau'r cyfarfod nesaf.

## 5 Trafodaeth am y blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor olynol

5.1 Trafododd y Pwyllgor y blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor olynol.